



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

ABERTAWE BRO MORGANNWG

**Gwelyau a
ragdybiwyd (galw
cynyddol)**

Mawrth 2019

Gwybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Beth wnaethom ni	4
Beth welsom ni	4
Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni	10
Dysgu o'r hyn a welsom a'r hyn a ddywedodd pobl wrthym	10
Argymhellion	12
Cysylltwch â ni	12

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu archebu copi trwy gysylltu â'n swyddfa (manylion cyswllt ar y dudalen gefn).

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC ABM).

CIC ABM yw'r corff gwarchod annibynnol sy'n edrych ar wasanaethau'r GIG ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar gyflwyno gofal iechyd ar gyfer eu teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, a chyrrff rheoleiddio i ddarparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rhai sy'n rheoleiddio'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae CICau yn clywed oddi wrth y cyhoedd trwy ystod eang o rwydweithiau cymunedol, cyswllt uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofaluwr trwy ymholiadau, ein gwasanaeth eirioli cwynion, ymweliadau â gwasanaethau'r GIG a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu.

Cefndir

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi adrodd yn rheolaidd ein bod wedi gweld gwelyau ychwanegol wedi'u hychwanegu at faeau neu ardaloedd o fewn wardiau pan fyddwn wedi ymweld â wardiau.

Mae cleifion a'u hymwelwyr wedi dweud wrthym y gall y gwelyau ychwanegol hyn wneud i'r ward ymddangos yn orlawn. Weithiau mae yna ddiffyg preifatrwydd gan nad oes bob amser llenni o gwmpas y gwely ac nid oes bob amser gan bobl sy'n defnyddio'r gwelyau hyn unrhyw le i roi eu pethau o fewn cyrraedd iddynt.

Mae'r bwrdd iechyd wedi dweud wrthym fod y gwelyau hyn sy'n cael eu hadnabod fel gwelyau a ragdybiwyd¹ neu welyau galw cynyddol yn cael eu defnyddio i ofalu am bobl sy'n aros i fynd adref. Mae hyn yn caniatáu rhyddhau gwelyau eraill i bobl sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty.

Adroddiad gwelyau a ragdybiwyd (galw cynyddol) Mawrth 2018

Yn ystod 2017/2018, fe wnaethom fonitro'r defnydd o'r gwelyau hyn drwy ofyn i'r bwrdd iechyd ddweud wrthym ba mor aml a ble y cawsant eu defnyddio.

Roeddem am weld drosom ein hunain lle'r oedd gwelyau ychwanegol yn dal i gael eu defnyddio ar draws safleoedd ysbytai ac i ddarganfod beth oedd pobl yn ei deimlo ynghylch cael gofal mewn gwelyau ychwanegol.

Ym mis Mawrth/Ebrill 2018, fe wnaethom ymweld â phob un o'n prif ysbytai i weld drosom ein hunain lle'r oedd gwelyau ychwanegol yn cael eu defnyddio. Yn yr adroddiad yn 2018, fe wnaethom argymhell y dylai'r Bwrdd Iechyd:

¹ Mae gwely a ragdybiwyd neu wely galw cynyddol yn wely ychwanegol a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer cleifion ychwanegol mewn cyfnodau o alw uchel.

1. Gynnal ei ymdrechion i leihau'r defnydd o welyau a ragdybiwyd ar draws ei safleoedd.
2. Sicrhau bod lleoliad gwelyau yn cael ei asesu'n llawn o safbwynt risg a bod cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw liniaru perthnasol neu yn cael sicrwydd priodol bod yr amgylchedd yn ddiogel.
3. Sicrhau nad yw'r defnydd o welyau a ragdybiwyd yn creu baeau rhyw cymysg.

Beth wnaethom ni yn 2019

Fe wnaethom ail-ymweld â phob un o'n prif ysbytai yn ystod mis Chwefror 2019 i weld a oedd gwelliannau wedi cael eu gwneud lle'r oedd gwelyau ychwanegol yn cael eu defnyddio.

Fe wnaethom siarad â phobl a oedd yn derbyn gofal mewn gwelyau ychwanegol er mwyn darganfod pa mor hir yr oeddent wedi bod yn defnyddio'r gwely ac i glywed am eu profiad.

Beth welsom ni

Ysbyty Tywysoges Cymru

Fe wnaethom ymweld ag 8 ward ac 1 adran yn ysbyty Tywysoges Cymru. Ar ddiwrnod ein hymweliad, dywedwyd wrth ein haelodau bod 5 gwely galw cynyddol yn cael eu defnyddio ar wardiau 2,5,8,10,11 a 4 gwely capasiti ymchwydd² ar Ward 17.

² Mae gwelyau capasiti ymchwydd yn cael eu defnyddio pan fydd y galw yn uwch na'r capasiti gwelyau sylfaenol cydnabyddedig er mwyn ymateb i alw a phwysau cynyddol ar draws y system.

Roedd 3 troli galw cynyddol yn cael eu defnyddio yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, gyda'r 3 troli hyn wedi'u lleoli o gwmpas yr orsaf nyrsio.

Roedd gan Ward 2 un gwely galw cynyddol o flaen dihangfa dân. Nid chafodd aelodau'r CIC gyfle i siarad â'r claf yn y gwely hwn.

Roedd gan Ward 5 un gwely galw cynyddol o flaen y llwybr sy'n arwain at Ward 16. Dywedodd y person a oedd yn defnyddio'r gwely wrthym ei fod yn teimlo bod y staff nyrsio yn wych. Roedd y claf yn defnyddio'r gwely hwn am yr eildro mewn rhai misoedd.

Roedd gan Ward 8 un gwely galw cynyddol wedi'i lleoli o flaen dihangfa dân. Dywedodd staff wrthym fod y claf wedi bod yn y gwely hwn am 12 awr. Ni siaradodd aelodau'r CIC â'r claf gan fod y claf yn cysgu.

Roedd gan Ward 10 un gwely galw cynyddol o flaen dihangfa dân. Roedd y claf wedi bod yn y gwely hwn am tua 11 awr. Dywedodd y claf wrth aelodau'r CIC ei fod yn disgwyl cael ei symud i wely 'go iawn' yn fuan.

Roedd gan Ward 11 un gwely galw cynyddol wedi'i lleoli o flaen y ddihangfa dân ond nid yn rhy agos. Nid oedd y claf yn glaf Gynaecolegol/mamolaeth. Roedd y claf wedi bod yn y gwely hwn am tua 12 awr. Dywedodd y claf wrth aelodau'r CIC ei fod wedi bod mewn coridor y tu allan i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys am 3 diwrnod.

Roedd gan Ward 17 bedwar gwely capasiti ymchwydd wedi'u lleoli mewn un Bae y tu mewn i'r ardal Dermatoleg. Mae hwn yn ofod

dynodedig ar gyfer cleifion sydd fel arfer yn agos at gael eu rhyddhau.

Yn dilyn hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysu'r CIC bod y gwelyau ar Ward 17 yn welyau capasiti ychwanegol y cytunwyd arnynt ac nid gwelyau galw cynyddol sydd wedi'u trefnu a'u gosod rhwng Ionawr a Chwefror eleni. Mae hyn yn golygu mai 5 gwely galw cynyddol yn hytrach na 9 oedd ar gael yn ysbyty Tywysoges Cymru ar ddiwrnod yr ymweliad.

Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Fe wnaethom ymweld â 7 ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Nid oedd gan yr un o'r wardiau hyn welyau a ragdybiwyd. Dywedodd Sue Jones, Pennaeth Gweithrediadau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wrthym nad oedd gwelyau a ragdybiwyd yn cael eu defnyddio yn yr ysbyty.

Dywedodd staff wrthym fod 4 gwely 'capasiti ymchwydd' yn cael eu defnyddio ar 'Ward E. Roedd ocsigen ac offer sugno ar gael gan bob un o'r gwelyau hyn. Roedd y cleifion yn hapus iawn gyda'u gofal.

Ysbyty Treforys

Fe wnaethom ymweld â 29 o wardiau yn Ysbyty Treforys. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd 5 gwely ychwanegol ar Ward Gŵyr. Roedd y gwelyau hyn mewn uned 5 gwely wedi'u neilltuo fel gwelyau pwysau'r gaeaf ac roeddent wedi cael eu defnyddio ers rhyw fis neu ddau. Dywedwyd wrthym fod y gwelyau hyn yn cael

eu staffio gan staff asiantaeth a staff Banc Cymorth Gofal. Nid oedd y cleifion yn yr ardal hon yn ymwybodol bod y gwelyau hyn wedi cael eu hychwanegu at y ward oherwydd pwysau'r gaeaf.

Dywedodd staff ar lawer o'r wardiau eraill wrthym y gallai fod ganddynt welyau a ragdybiwyd, un neu ddau ar unrhyw adeg.

Dywedodd rhai wrthym fod gwelyau yn aml yn cael eu rhoi o flaen allanfeydd tân³ yn Wardiau A, F, H a Ward Ynys Môn neu yng nghanol y baeau heb lenni, ocsigen, swynyn ar gyfer galw am gymorth nac offer sugno.

Dywedodd staff ar Ward Asesu Feddygol Aciwt Ward y Gorllewin wrthym y byddai asesiad risg yn cael ei drefnu'n ddyddiol pe bai ganddynt wely a ragdybiwyd.

Fe'n hysbyswyd bod gan Ward D gynllun i dderbyn 3 o gleifion i'r ward honno o'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys i wely a ragdybiwyd am 60 munud pe bai lefel galw cynyddol yr ysbyty yn cyrraedd lefel 4 (y statws galw cynyddol uchaf). Defnyddiwyd y cynllun hwn pan oedd y ward yn gwybod bod cleifion o Ward D ar fin cael eu rhyddhau, yn rhoi cyfle iddynt gymryd claf newydd i wely a ragdybiwyd am y cyfnod byr hwn.

Yn ystod ein hymweliad ag Ysbyty Treforys, sylwodd aelodau'r CIC fod cadeiriau/offer yn peri rhwystr o flaen y drysau tân ar wardiau A, H, J, R a ward Aberteifi. Roedd blanced wedi'i phlygu

³ Gwelyau a osodwyd o flaen allanfeydd tân - Roedd yr adroddiad gwelyau a ragdybiwyd (2018) yn cynghori bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal asesiad risg llawn wrth ystyried lle i osod gwelyau.

dros ben y drws tân ar Ward T. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cwtogi ar y sŵn wrth i'r drws gau.

Yn dilyn hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysu'r CIC bod y gwelyau ar Ward Gŵyr yn welyau ychwanegol ar gyfer capasiti ymchwydd y cytunwyd arnynt ac sydd wedi'u gosod yn bwrpasol rhwng mis Ionawr a diwedd mis Mawrth eleni. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym, nad oedd ysbyty Treforys wedi rhoi mwy nag un gwely a ragdybiwyd ar ward ar unrhyw un adeg ers yr ymweliad cyntaf yn 2018.

Aethpwyd i'r afael â'r materion a godwyd o amgylch y flanced a'r rhwystrau o flaen y drysau tân.

Ysbyty Singleton

Gwnaethom ymweld ag 8 o wardiau ac adrannau yn Ysbyty Singleton. Canfuom fod 1 gwely a ragdybiwyd a 36 o welyau pwysau'r gaeaf yn cael eu defnyddio ar draws 6 ward (Wardiau 3,4,6,7,9 a 12) gyda 5 arall yn yr uned Asesu Lawfeddygol (UAL).

Gwelsom fod yr ardal a neilltuwyd ar gyfer yr UAL yn llawn iawn. Gwelsom gleifion yn derbyn gofal yn yr ystafell ddadebru, yr ystafell ar gyfer brysbennu, ystafell glercio'r meddyg a'r ystafell aros goch.

Nid oedd y ddau glaf yn yr ystafell ddadebru yn ddigon da i siarad â nhw. Roedd yr ystafell frysbennu yn llawn oherwydd ei bod yn storio eitemau. Roedd y claf yn yr ystafell hon wedi'i roi ar droli ac roedd yn aros i weld beth oedd yn digwydd nesaf. Nid oedd y claf hwn yn 'hapus'.

Roedd offer pwrpasol yn ystafell glercio'r meddyg er mwyn darparu gwely ychwanegol pan oedd angen. Dywedodd y claf yn yr ystafell hon ei bod yn hapus lle'r oedd hi, gan nad oedd dewis arall.

Roedd troli a nifer o gadeiriau yn yr ystafell aros goch gydag un claf ar droli, yn aros i gael ei weld.

Roedd gan Ward 3 un gwely pwysau'r gaeaf a hwnnw yn yr ystafell ddydd. Nid oedd gan yr ystafell hon swyn ar gyfer galw am gymorth nac offer sugno, ond roedd ganddi ocsigen symudol. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi ymweld â'r claf hwn yn aml. Ni wnaeth aelodau'r CIC siarad â'r claf hwn oherwydd bod y claf yn derbyn sylw yn ystod yr ymweliad.

Roedd gan Ward 4 un gwely a ragdybiwyd. Roedd y claf yn derbyn nyrsio ataliol yn yr ystafell ddydd ac nid oedd cyfleusterau ar gyfer golchi dwylo. Roedd yn rhaid i'r claf adael yr ystafell i ddefnyddio cyfleusterau toiled. Roedd yn rhaid glanhau'r toiled ar ôl pob defnydd. Ni siaradodd aelodau'r CIC â'r claf oherwydd ei fod yn derbyn nyrsio ataliol.

Roedd gan Ward 6 un gwely pwysau'r gaeaf yn yr ystafell ddydd, yr ystafell hon wedi cael ei newid o uned 4 gwely yn flaenorol. Roedd pob darn o offer angenrheidiol yn yr ardal hon yn cynnwys basn ymolchi, swyn ar gyfer galw am gymorth a bleindiau. Roedd y claf yn gyfforddus ac yn ddigynnwrf.

Roedd 17 o welyau pwysau'r gaeaf ar ward 7. Roedd y gwelyau hyn wedi'u lleoli mewn ardal ag offer llawn gyda dynion a

menywod mewn ardaloedd ar wahân. Ni siaradodd aelodau'r CIC â'r cleifion oherwydd eu bod yn sâl iawn.

Roedd 5 o welyau pwysau'r gaeaf ar ward 9 ynghyd â gwely côd coch (gwely brys) yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrth aelod y CIC ac roedd hwn wedi'i lenwi oherwydd pwysau'r gaeaf. Roedd y gwelyau hyn wedi'u lleoli mewn ardal ar ward ag offer llawn.

Roedd 7 o welyau pwysau'r gaeaf ar ward 12. Roedd y gwelyau hyn wedi'u lleoli mewn dwy ystafell 4 gwely gydag offer llawn.

Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl wrthym eu bod naill ai wedi bod mewn gwely a ragdybiwyd, gwely galw cynyddol neu wely capasiti ymchwydd am oriau. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar y cyfan yn deall y pwysau ar y system.

Dysgu o'r hyn a welsom a'r hyn a ddywedodd pobl wrthym

Roeddem yn falch gweld unedau neu faeau pwysau'r gaeaf pwrpasol ledled yr ysbytai, lle nad oedd cleifion yn teimlo eu bod mewn gwely ychwanegol a bod ganddynt yr offer angenrheidiol i'w cadw'n ddiogel.

Unwaith eto, gwelsom lle y defnyddiwyd gwelyau a ragdybiwyd/gwelyau galw cynyddol, fod hyn yn cael effaith ar yr amgylchedd. Lle gosodwyd gwelyau mewn baeau, gwelsom fod hyn fel arfer o flaen neu'n agos at ddihangfa dân. Rydym yn

ailadrodd ein pryderon y gallai hyn beri risg yn achos tân ac y gallai wneud i gleifion deimlo'n nerfus neu'n anghyfforddus.

Unwaith eto, gwelsom welyau mewn ystafelloedd dydd ac unwaith eto rydym yn pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael ar amgylchedd y ward ehangach a'r cyfleoedd sydd ar gael i gleifion ryngweithio gyda'i gilydd a chydag ymwelwyr. Gwyddom o ymgysylltiad blaenorol â chleifion fod hyn yn rhywbeth y mae pobl yn ei werthfawrogi.

Mewn un achos roeddem yn bryderus o weld bod claf yn derbyn nyrsio ataliol yn yr ystafell ddydd heb gyfleusterau golchi dwylo na thoiled.

Unwaith eto gwelsom fod gwelyau yn cael eu gosod mewn ystafelloedd triniaeth neu ystafelloedd a gynlluniwyd i ddarparu lle preifat ar gyfer ymgynghoriadau. Roeddem hefyd yn bryderus y gallai hyn gael effaith negyddol ar y rhai a fyddai fel arall wedi defnyddio'r cyfleuster.

Ar y cyfan, fe welsom unwaith eto fod cleifion yn deall y pwysau sydd ar wasanaethau ysbyty a'u bod yn canmol staff nyrsio hyd yn oed pan oeddent yn teimlo fod yr amgylchedd yn llai na delfrydol.

Argymhellion

Dylai'r bwrdd iechyd:

Barhau i gynnal ei ymdrechion i leihau'r defnydd o welyau a ragdybiwyd ar draws ei safleoedd gan ddefnyddio mwy o ardaloedd 'pwysau'r gaeaf' sy'n addas ar gyfer trin cleifion mewn amgylchedd diogel.

Sicrhau bod asesiad risg llawn yn cael ei wneud ynglŷn â lleoliad gwelyau ychwanegol mewn ardal ward a bod cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw liniaru perthnasol neu yn cael sicrwydd priodol bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Sicrhau nad yw defnyddio gwelyau ychwanegol yn effeithio ar ofal cleifion, yn enwedig pan fydd y claf yn derbyn nyrsio ataliol.

Cysylltwch â ni

Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg

Llawr Cyntaf, Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla

Castell-nedd

SA11 3SU

Rhif ffôn: 01639 683490

E-bostiwrch: office.abm@waleschc.org.uk

Gwefan: www.communityhealthcouncils.org.uk/ABM



@ABMCHC